# Cofnodion Wedi i Cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 24 Chwefror 2026, rhwng 10:00 a 12:55
## Cynhaliwyd yng Nhwr y Ddinas 2 a thrwy Microsoft Teams

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Clare Jenkins | (CJ) | Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Paul Brocklehurst | (PB) | Ymgynghorydd mewn Iechyd Deintyddol (ar gyfer eitem 5.3) |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Neil Desmond | (ND) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitemau 3.2 a 5.5) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (Ar gyfer eitem 5.2) |
| Sharon Hillier | (SH) | Cyfarwyddwr Sgrinio (ar gyfer eitem 3.2 a 6) |
| Junaid Iqbal | (JI) | Arweinydd profiad defnyddwyr gwasanaeth (arsylwi) |
| Martin Jones | (MJ) | Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio - Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau Busnes |
| Anup Karki | (AK) | Ymgynghorydd mewn Iechyd Deintyddol y Cyhoedd (ar gyfer eitem 5.3) |
| Kimberley Meringolo | (KM) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio, Uned Perfformiad a Gwella (ar gyfer eitem 9) |
| Camille Roberts | (CR) | Meddyg cofrestrydd pediatrig yng Nghymru (Arsylwi) |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (rhan o'r cyfarfod) |
| Zoe Wallace | (ZW) | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol |
| Mary Wilson | (MW) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 5.3) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |

Wedi i Cadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Sophie Fuller | (SF) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol a Chymorth Busnes, Perfformiad a Gwella'r GIG |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Jo Kondra | (JK) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Angela Williams | (AW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 10:00* | | |

| | |
|---|---|
| **Rhan A** | |
| **QSIC 2026.02.24/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |
| Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.<br><br>Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **QSIC 2026.02.24/2** | **Datganiad o Fuddiant** |
| Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. | |
| **QSIC 2026.02.24/3** | **Eitemau i'w cymeradwyo** |
| **QSIC 2026.02.24/3.1** | **Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu** |
| Ystyriodd a **chymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2025 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.<br><br>**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y cofnod o gamau gweithredu. | |
| **QSIC 2025.11.25/3.2** | **Polisïau a Gweithdrefnau i'w cymeradwyo** |
| Cyflwynodd ND y Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig, gan dynnu sylw at ychwanegu adran newydd ar reoli risg a diweddariadau i strwythurau monitro ac adrodd.<br><br>Cyflwynodd ND y Polisi Ffonau Symudol, wedi'i ailddrafftio yn dilyn adborth aelodau'r Pwyllgor i fod yn fwy galluogol ac yn llai cyfyngol, gydag eglurhad ar ddefnydd busnes, rhannu dyfeisiau, ac eSIMs.<br><br>Cyflwynodd MJ y polisi Rheoli Meddyginiaethau diwygiedig a oedd wedi ymgorffori adborth ar rolau, trin rhybuddion, safonau storio, a systemau cyfredol. | |

Wedi i Cadarnhau

Cyflwynodd SH y Polisi Ymbelydredd diwygiedig, gan egluro mân ddiweddariadau ac eglurhad ynghylch dyletswyddau statudol a gweithdrefnau cyflogwyr. Wrth fyfyrio ar ymholiad y Timau Arweinyddiaeth ynghylch a ddylai'r polisi fod yn fersiwn Cymru Gyfan, eglurodd SH yr angen am lywodraethu penodol i'r Sefydliad.

Nododd y Pwyllgor fod y pedwar polisi wedi bod ar gael i staff ymgynghori â nhw ac wedi cael eu cymeradwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth a **chymeradwyodd** y canlynol:

- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi ffonau symudol
- Polisi Rheoli Meddyginiaethau
- Polisi Ymbelydredd

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.02.24/4** | **Argymhelliad i'r Bwrdd** |
| **QSIC 2026.02.24/4.1** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2025/26 ac Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor Cyfunol** |

Cyflwynodd LB yr adroddiad blynyddol, a oedd yn crynhoi gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn a'r drafodaeth yng ngweithdy Effeithiolrwydd y Pwyllgor. Aeth LB ymlaen i dynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Gwnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** y byddai'r adroddiad drafft yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror a chytunwyd i gytuno ar y fersiwn derfynol gyda Chadeirydd y Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.
- **Ystyried** crynodeb yr adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor a ymgorfforwyd yn yr adroddiad blynyddol
- **Argymell** yr adroddiad (yn amodol ar y gwelliannau a gytunwyd gyda'r Cadeirydd) i'r Bwrdd i roi sicrwydd bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn addas at y diben ac yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei gylch gorchwyl.
- **Nodi** y byddai Grŵp Cadeiryddion y Trawsbwyllgor yn adolygu cynnydd o ran gweithredu'r camau gweithredu a'r camau nesaf yn ystod 2026/27.
- **Nodi** nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl a gweithdrefnau gweithredu'r Pwyllgor Safonau.
- **Nodi** y byddai cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor ym mis Mawrth.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.02.24/5** | **Eitemau ar gyfer Sicrwydd** |
| **QSIC 2026.02.24/5.1** | **Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd Ch3 a Diweddariad Ymgysylltu** |

Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd ar gyfer Chwarter 3, gan dynnu sylw'r Pwyllgor at feysydd penodol i'w hystyried:

<u>Gweithio i Wella (PTR), Ch3</u>
Crynhodd AC yr adran Gweithio i Wella, a oedd yn cynnwys y digwyddiadau, cwynion a phryderon a adroddwyd ac a weithredwyd arnynt yn ystod Chwarter 3:

- Adroddwyd am 581 o ddigwyddiadau, dosbarthwyd un digwyddiad fel niwed cymedrol ar ôl ymchwiliad.

Wedi i Cadarnhau

- Nid oedd unrhyw achosion dyletswydd gonestrwydd na Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol. Roedd un rhybudd cynnar yn ymwneud ag iechyd rhywiol.
- Roedd dau dîm rheoli digwyddiadau yn weithredol: un ar gyfer Adolygiad Porth Bron Brawf Cymru ac un ar gyfer diogelwch dŵr (roedd yr ail bellach wedi cau).
- Cynhaliwyd archwiliadau ôl-weithredol yn Sgrinio Serfigol Cymru, yn gysylltiedig â chanlyniadau anfoddhaol ac oedi yn y broses C-SWAC. Aseswyd yr achosion am niwed i fenywod yr effeithiwyd arnynt ac roedd gwelliannau i wasanaethau wedi'u rhoi ar waith i atal oedi yn y dyfodol.
- Roedd sesiynau addysg ar y gweill mewn gofal sylfaenol i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn digwyddiadau sgrinio serfigol sy'n gysylltiedig â nwyddau traul sydd wedi dod i ben.
- Byddai sesiynau ymwybyddiaeth yn cael eu darparu yn ystod mis Mawrth i fynd i'r afael â'r rheoliadau newydd Gweithio i Wella (a enwir erbyn hyn yn Gwrando ar Bobl) o 1 Ebrill ymlaen. Nododd AC y byddai effaith ar bolisïau perthnasol a'r system Datix.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- Nodi bod AC wedi rhoi diweddariad llafar ar yr hyn a ddysgwyd gan AAA a thynnodd sylw at yr angen i gynnwys hyn yn yr adroddiadau ysgrifenedig. Pwysleisiodd NE yr angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru hwyluso gofal da a hygyrchedd.
- Cydnabod yr hyfforddiant a oedd yn cael ei weithredu i fynd i'r afael ag agwedd staff a gofynnwyd a oedd y Sefydliad yn edrych ar y sbardunau posibl o ran yr amgylchedd gwaith a allai gyfrannu at yr ymddygiad. Rhoddodd AC sicrwydd bod unrhyw themâu posibl wedi cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.

<u>Profiad Cleifion/Defnyddwyr Gwasanaethau a Rheoli Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch, Ch3</u>
Tynnodd AC sylw at y canlynol:
- 40 o gwynion datrysiad cynnar, a 10 cwyn ffurfiol. Themâu cyffredin a gofnodwyd yn ymwneud â chyfathrebu, mynediad ac agwedd staff. Bron Brawf Cymru oedd â'r nifer uchaf o gwynion yn ymwneud ag agwedd ac ymddygiad staff ac roedd hyfforddiant ar gyfathrebu wedi'i gomisiynu i fynd i'r afael â hyn.
- Derbyniwyd 157 o ganmoliaethau - themâu cyffredin oedd diolch cyffredinol i'r staff a staff yn mynd y tu hwnt i'r lefel o ofal disgwyliedig.
- Roedd 5 allan o 30 o rybuddion yn berthnasol i'r Sefydliad ac fe'u dosbarthwyd er gwybodaeth.

<u>Gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, Ch3</u>
Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y Grŵp Diogelu, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Bu cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch diogelu ym mis Rhagfyr oherwydd pryderon yn y gwasanaeth iechyd rhywiol, gan arwain at dîm rheoli digwyddiadau ar gyfer diogelu, diogelwch cleifion, a llywodraethu gwybodaeth. Darparodd yr arweinydd diogelu corfforaethol a'r tîm Diogelu Cenedlaethol gefnogaeth ddyddiol. Hysbyswyd rhanddeiliaid allweddol, a chyflwynwyd rhybudd cynnar i Lywodraeth Cymru.

Wedi i Cadarnhau

- Roedd cydymffurfedd â hyfforddiant diogelu Lefel 1 yn uwch na'r targed (90%), ond roedd hyfforddiant lefel uwch yn is na'r targed, ac roedd 25 o staff yn hwyr yn cwblhau'r hyfforddiant. Gofynnwyd i bob maes ganolbwyntio ar wella cydymffurfedd.
- Cafodd y risg yn gysylltiedig ag un deiliad swydd corfforaethol ei chau ond byddai'n cael ei hailagor oherwydd problemau gyda'r gwasanaeth iechyd rhywiol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Diolch i AC am y diweddariad ar iechyd rhywiol a nododd yr ymrwymiad i ddarparu diweddariad pellach ar y canlyniadau dysgu yn yr adroddiad nesaf.

<u>Gwaith y Grŵp Corfforaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (IPC), Ch3</u>
Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp IPC Corfforaethol, gan dynnu sylw at y canlynol:

- 16 digwyddiad yn gysylltiedig ag Atal a Rheoli Heintiau, pob un ohonynt yn niwed isel neu ddim niwed o gwbl.
- Roedd cydymffurfedd hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau Lefel 1 uwchlaw'r targed, ond roedd cydymffurfedd lefel 2 islaw'r targed ac yn dirywio. Roedd camau gweithredu wedi'u targedu ar y gweill i wella cydymffurfedd, yn enwedig yn yr adran heintiau, gwasanaethau corfforaethol, a diogelu iechyd.
- Cynyddodd sgôr risg uned dadheintio Dyffryn Clwyd o 12 i 16 oherwydd oedi yn y prosiect; roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Betsi Cadwaladr i sicrhau cwblhau'r camau gweithredu. Roedd y nyrs Atal a Rheoli Heintiau bellach yn rhan o'r grŵp prosiect.
- Parhaodd y contract glanhau i fod yn bryder yn dilyn diwedd y contract Cymru gyfan a rhybudd byr ar gyfer caffael; estynnwyd y contract gyda'r darparwr presennol i ganiatáu amser ar gyfer manyleb a dethol priodol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Tynnu sylw at bryderon ynghylch cyfraddau cydymffurfedd isel ar gyfer hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau lefel 2, gan nodi ei bwysigrwydd ar gyfer rheoli heintiau. Cadarnhaodd AC fod camau gweithredu wedi'u targedu ar y gweill ac eglurodd fod archwiliadau wedi nodi problemau gyda pheidio â bod yn noeth o dan y penelin, defnyddio menig, a defnyddio diheintydd, a bod nyrsys a hyrwyddwyr Atal a Rheoli Heintiau yn mynd i'r afael â hyn.
- Gofyn a oedd gan y risg gynyddol yng Nglyn Clwyd oblygiadau ymarferol i ddefnyddwyr gwasanaeth neu staff a pham fod y sgôr risg wedi cynyddu o ystyried natur hirhoedlog y mater. Esboniodd AC y risg sy'n gysylltiedig â safonau dihalogi ar y safle, a oedd yn hen ac nad oedd yn gwbl addas at y diben, ac y gallai oedi pellach arwain at ailystyried parhau i ddefnyddio'r safle. Aeth AC ymlaen i esbonio bod y risg wedi'i huwchgyfeirio i'r gofrestr gorfforaethol oherwydd diffyg sicrwydd ac oedi ychwanegol a achoswyd gan brinder cyllid, ond roedd sicrwydd diweddar yn dangos y byddai'r prosiect yn cael ei gwblhau.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a meysydd i'w gwella.

Wedi i Cadarnhau

- Cymryd **sicrwydd** bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau gwasanaethau diogel, amserol, effeithiol, teg, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

<u>Diweddariad Ymgysylltu</u>

Rhoddodd AC ddiweddariad ar Ymgysylltu, Profiad a Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr, yn bennaf o fewn cyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Gwybodaeth, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Roedd y rhaglen llysgenhadon ifanc wedi'i hoedi i adolygu a gwella llywodraethu, ac roedd model newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc yn cael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan sefydliadau llawr gwlad ac arweinydd pobl ifanc sydd newydd ei benodi.
- Gwaith cydweithredol gyda'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant ar ddatblygu cytundeb partneriaeth rhwng y Sefydliad a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a oedd â'r nod o gryfhau cydweithio a sicrhau bod profiad bywyd yn llywio ailgynllunio a gwella gwasanaethau.
- Ymdrechion y Gyfarwyddiaeth Ymchwil Digidol a Data i ymgorffori profiad defnyddwyr mewn prosiectau digidol, gan gynnwys y rhaglen sgrinio ysgyfaint a chynlluniau peilot adborth defnyddwyr gwasanaeth sy'n seiliedig ar negeseuon testun. Roedd y cynllun peilot SMS mewn sgrinio llygaid diabetig wedi cynyddu cyfraddau adborth o 1.6% i 28%. Nododd AC fod adborth negyddol yn aml yn ymwneud â pharcio ac ystafelloedd aros, tra bod adborth cadarnhaol yn canolbwyntio ar gymwynasgarwch staff.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gwneud sylwadau ar eglurder yr adborth ynghylch parcio a chyfleusterau, gan awgrymu gwell cyfathrebu ymlaen llaw i osod disgwyliadau. Cadarnhaodd AC fod llythyrau penodi yn cynnwys yr wybodaeth hon a bod cydweithwyr Ystadau yn gweithio gyda phartneriaid lleol i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau.
- Canmol y fenter adborth SMS a gofynnodd i'r Sefydliad ystyried ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth drwy ap y GIG, yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru. Byddai AC yn codi hyn gyda chydweithwyr digidol a sgrinio a nododd botensial yr ap ar gyfer ymgysylltiad ehangach.
- Canmol y cynnydd o ran defnyddio adborth i wella gwasanaethau a gofynnodd am ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol fel Llais. Cadarnhaodd AC fod cyfarfodydd rheolaidd gyda Llais yn digwydd a chydnabu rôl Junaid Iqbals wrth hyrwyddo adborth yn fewnol ac ar lefel Cymru Gyfan.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y gwaith hwn yn cefnogi'r strategaeth hirdymor.

| **QSIC 2026.02.24/5.2.1** | **Sicrwydd Risg - Cofrestr Risg Strategol** |
|---|---|

Cyflwynodd DG yr adroddiad, gan dynnu sylw at y newid o gynllun datblygu rheoli risg i gynllun aeddfedrwydd, gan anelu at ddull mwy datblygedig o reoli risg ar bob lefel. Roedd dogfen weledigaeth strategol yn cael ei datblygu i arwain rheoli risg dros y pum i saith mlynedd nesaf

Wedi i Cadarnhau

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Argymell cyfeirio at oruchwyliaeth yr adroddiad gan uwch arweinyddiaeth neu dimau gweithredol cyn cyrraedd y Pwyllgor.
- Nodi bod y gofrestr risg yn cyfeirio at y digwyddiad iechyd rhywiol ond nad oedd cofnod risg ynddi ynglŷn â phrofi am risgiau tebyg mewn mannau eraill yn y Sefydliad. Cadarnhaodd DH fod y mater o brofi am risgiau tebyg wedi'i drafod fel rhan o'r timau rheoli digwyddiadau a chynigiodd sicrwydd ar lafar bod y sefydliad yn ymwybodol o'r angen hwn. Pwysleisiodd NE bwysigrwydd cofnodi hyn yn y gofrestr risg er mwyn osgoi colli golwg arno ac i gefnogi gwelliannau llywodraethu parhaus.

**Cam Gweithredu: DG**

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risg Strategol o fewn eu cylch gwaith.

| QSIC 2026.02.24/5.2.2 | Sicrwydd Risg - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol |
|---|---|

Cyflwynodd DG yr adroddiad, a oedd yn cyflwyno'r sefyllfa Risg Gorfforaethol a gymeradwywyd ddiwethaf gan y Tîm Arweinyddiaeth.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru o fewn eu cylch gwaith.

| QSIC 2026.02.24/5.3 | Diweddariad ar Raglen Iechyd y Geg |
|---|---|

Cyflwynodd ZW y tîm o bobl a oedd i fod i gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ers i'r Pwyllgor ystyried ymchwiliad manwl i Iechyd y Geg ym mis Medi 2024.

Cyflwynodd AK yr adroddiad, gan egluro bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rolau arweinyddiaeth a chydlynu cenedlaethol ar gyfer rhaglenni iechyd deintyddol y cyhoedd, ond bod cyllid a chyflawniad yn gyfrifoldeb y byrddau iechyd. Tynnodd AK sylw at heriau parhaus, yn enwedig materion ariannol sy'n effeithio ar raglen Cynllun Gwên, a nododd weithgarwch ymchwil cryf y tîm a'i ymrwymiad i wella ansawdd.

Darparodd PB fanylion penodol ar ddeallusrwydd iechyd y geg, gan adrodd am ostyngiad sylweddol mewn pydredd dannedd ymhlith plant pump oed. Nododd PB, er bod y difrifoldeb wedi lleihau, fod anghydraddoldebau wedi aros yr un fath. Disgrifiodd PB gynnydd wrth ddefnyddio data gweithgarwch deintyddol, ac ymdrechion parhaus i ddatrys problemau cyfreithiol a materion rheolwyr data gyda Llywodraeth Cymru i alluogi cysylltiad â data adnabyddadwy cleifion a nododd yr ymgyrch am gydsyniad goddefol i fynd i'r afael â chyfraddau cyfranogiad sy'n gostwng mewn rhaglenni epidemiolegol.

Esboniodd MW, er bod cyfraddau cyffredinol pydredd dannedd wedi gwella, ei bod yn heriol cyrraedd y 27% o blant ag afiechyd sy'n weddill. Ailadroddodd MW bwysigrwydd esblygu'r rhaglen a thynnu sylw at ystyriaeth Llywodraeth Cymru o gydsyniad goddefol i wella cynhwysiant iechyd.

Wedi'i Cadarnhau

Daeth ZW â'r diweddariad i ben drwy dynnu sylw at lythyr cylch gwaith a mandad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2026-27 a oedd yn cynnwys tri gofyniad penodol sy'n gysylltiedig ag iechyd deintyddol y cyhoedd.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Canmol y cynnydd o ran lleihau pydredd dannedd a gofynnodd a fyddai rhoi data SAIL dan ffugenw o fudd. Ymatebodd PB, er bod ffugenwau wedi'u hystyried, y gallai datblygiadau cadarnhaol diweddar yng nghontract newydd Llywodraeth Cymru alluogi cysylltu data adnabyddadwy cleifion, gan ddatrys ansicrwydd blaenorol ynghylch rheolwyr data. Pe bai cynnydd yn dod i ben, byddai rhoi ffugenw yn cael ei ailystyried.
- Holi ynghylch y cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer rhaglenni deintyddol, gan ofyn a oedd y cyfyngiad oherwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru neu'r Byrddau Iechyd. Eglurodd MW fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid wedi'i glustnodi'n uniongyrchol i Fyrddau Iechyd, ond er bod y gyllideb ddeintyddol gyffredinol wedi'i chodi, nid oedd codiadau penodol i raglenni bob amser yn cael eu trosglwyddo. Dadleuodd dros Fyrddau Iechyd yn dyrannu codiadau'n briodol a nododd rywfaint o lwyddiant mewn rhai byrddau yn unig.
- Gofyn am effaith amser o flaen sgrin a datblygiad plant ar frwsio dannedd dan oruchwyliaeth, gan feddwl tybed a allai gemeiddio helpu. Esboniodd MW fod cyngor deintyddol yn argymell goruchwyliaeth rhieni hyd at saith oed, ond bod y broblem amser o flaen sgrin yn ehangach gan effeithio ar barodrwydd ar gyfer yr ysgol a cherrig milltir datblygiadol.

Diolchodd y Pwyllgor i'r tîm am y diweddariad a gwnaeth y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod y tîm iechyd deintyddol y cyhoedd yn gweithio'n effeithiol wrth gyflawni ei rôl arweinyddiaeth strategol genedlaethol ar gyfer gwella iechyd y geg yn y boblogaeth, deallusrwydd iechyd y geg a swyddogaethau iechyd deintyddol y cyhoedd eraill fel yr amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru.
- **Ystyried** yr heriau presennol sy'n effeithio ar raglenni iechyd deintyddol y cyhoedd.
- **Nodi'r** dull ar gyfer eglurhad cyfreithiol o'r broses gydsynio ar gyfer y Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol a'r rhaglen Cynllun Gwên ac a oedd cydsyniad goddefol (Optio Allan) yn bosibl.
- **Nodi'r** dull o bennu'r Rheolwr Data ar gyfer y data gwasanaethau deintyddol a gedwir gan ddata Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i greu Cytundeb Rhannu Data a hwyluso cysylltu data â chronfa ddata SAIL.

| **QSIC 2026.02.24/5.5** | **Iechyd a Diogelwch Chwarter 3 2025-26** |
|---|---|

Cyflwynodd ND yr adroddiad Iechyd a Diogelwch, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Roedd pedwar Rheoliad Adrodd ar Anafiadau, Clefydau eu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDORS) newydd wedi cael eu hadrodd ac yn cael eu rheoli.
- Roedd yr holl rybuddion iechyd a diogelwch wedi cael eu prosesu yn brydlon.
- Adroddwyd ar bum risg newydd, yn ymwneud ag ansawdd dŵr, gwasanaethau heintiau, diogelwch meysydd parcio a staff yn dod i gysylltiad ag adborth trawmatig gan y cyhoedd. Manylodd ND ar gamau lliniaru, gan gynnwys ffiltrau dŵr, cydymffurfedd â maniffold nwy, atgyweiriadau awtoclafau, rhoi

Wedi'i Cadarnhau

wyneb newydd ar feysydd parcio, a chefnogaeth i staff sy'n dod i gysylltiad â thrawma.
- Roedd cydymffurfedd â hyfforddiant statudol a gorfodol yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd ND bryder ynghylch lefel y cydymffurfedd ar gyfer hyfforddiant adfywio ar gyfer pediatreg ac oedolion mewn Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a byddai'n cael sylw gyda chydweithwyr sgrinio.
- Diweddariad ar y contract glanhau, gan egluro, oherwydd oedi yn y tendr Cymru gyfan, y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymestyn y contract presennol tan fis Hydref ac yna'n symud i gontract a reolir yn lleol gyda manylebau uwch. Disgrifiodd ND hefyd gynnydd ar drefniadau rheoli dŵr ar gyfer unedau symudol Bron Brawf Cymru, gyda chontractwr newydd i ddarparu cysondeb a sicrwydd.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- Cyfeirio at y ffigurau cydymffurfiaeth gwahanol ar gyfer hyfforddiant adfywio oedolion a phediatrig a oedd fel arfer yn gynnig cyfun ac awgrymodd adolygu'r cyfraddau cydymffurfedd gyda'r darparwr.
- Gofynnwyd am statws y polisi rheoli gwastraff. Cytunodd ND fod hwn yn faes blaenoriaeth ac roedd yn disgwyl i'r adolygiad gael ei gynnal erbyn diwedd mis Mawrth.
- Gofynnwyd a fyddai'r contract glanhau newydd yn cwmpasu safleoedd a gynhelir gan sefydliadau eraill neu safleoedd sy'n ymroddedig i Iechyd Cyhoeddus yn unig, ac a fyddai symud o gontract Cymru gyfan i gontract lleol yn creu baich neu gymhlethdod rheoli ychwanegol. Esboniodd ND y byddai'r contract yn cynnwys rhai safleoedd a gynhelir, yn dibynnu ar drefniadau, ac eglurodd y byddai rheoli'n lleol mewn gwirionedd yn haws ac yn fwy cadarn na'r contract cenedlaethol blaenorol, gan ganiatáu ar gyfer gwell archwilio a rheoli perfformiad ansawdd .

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd gwella a nodwyd.

| **QSIC 2026.02.24/5.6** | **Cynllunio ar gyfer y Gaeaf / Cynllunio Tymhorol** |
|---|---|

Cyflwynodd MJ y diweddariad diwedd cylch ar baratoadau cynllunio gaeaf/tymhorol y Sefydliad, yn dilyn adroddiadau blaenorol ar gynllunio cynnar a chyflenwi yn ystod y tymor. Tynnodd MJ sylw at y canlynol:
- Y nod canolog o hyd oedd darparu goruchwyliaeth sefydliadol gydlynol, lleihau dyblygu, sicrhau llinellau cyfathrebu clir, a chryfhau aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol y gaeaf.
- Cydlynu sefydliadol gwell, cylchoedd cynllunio cynharach, a dysgu ar draws y system ar gyfer 2025-26 a llunio paratoadau ar gyfer 2026-27.
- Ymhlith y gwersi allweddol roedd manteision model canolog, cyfathrebu cliriach a gwelliant mewn gweithio mewn partneriaeth, a'r angen am gynllunio hyd yn oed yn gynharach y flwyddyn nesaf.

Wedi i Cadarnhau

Cydnabu'r Pwyllgor welliannau parhaus mewn cynllunio ar gyfer y gaeaf, gan nodi mwy o weithio trawsbartneriaeth a diolchodd i'r tîm am gyfranogiad y Pwyllgor drwyddo draw.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** yr ymgymerwyd â gweithgarwch gwersi a ddysgwyd a bod mewnwelediadau—ar draws y system ac yn benodol i'r rhaglen—yn cael eu hymgorffori yn y cynllunio ar gyfer tymor gaeaf 2026/27.
- **Nodi**, mewn ymateb i adborth cadarnhaol, fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwella ei ddull cydweithredol, gyda ffrydiau gwaith yn cynllunio gweithgareddau gaeaf yn y dyfodol ar y cyd ac yn mabwysiadu mecanweithiau rhannu gwybodaeth gwell.

| QSIC 2026.02.24/6 | Archwiliad Dwfn i'r Gwasanaethau Sgrinio |
|---|---|

Cyflwynodd SH yr adolygiad manwl o'r gwasanaethau sgrinio, a oedd yn amlinellu perfformiad, heriau, risgiau a chamau gwella ar draws Sgrinio Coluddion Cymru, Bron Brawf Cymru a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, gan nodi bod sgrinio yn parhau i ddarparu manteision sylweddol o ran canfod cynnar, gyda gweithgarwch cryf ar draws yr holl raglenni.

Rhoddodd SH yr wybodaeth ddiweddaraf am Sgrinio Coluddion Cymru:

- Roedd Sgrinio Coluddion Cymru wedi cwblhau ei raglen optimeiddio, a oedd wedi canfod nifer uwch o ganserau a pholypau, fodd bynnag, roedd aros am sgrinio colonosgopi a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd yn parhau i fod yn sylweddol uwchlaw'r safon pedair wythnos. Parhaodd cyfyngiadau capasiti endosgopi, oedi achredu a chyflenwi anghyson o restrau colonosgopi a gomisiynwyd i rwystro perfformiad. Roedd Cydweithrediad Gwella Colonosgopi cenedlaethol wedi'i sefydlu i gefnogi byrddau iechyd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofyn am eglurhad ar y risg glinigol sy'n gysylltiedig ag oedi wrth sgrinio'r coluddion. Cadarnhaodd SH fod y dystiolaeth a gyhoeddwyd yn ymwneud â risg o ddiagnosis yn ddiweddarach ar ôl 26 wythnos, gyda'r mesur yn cyfeirio at amser i gael diagnosis yn hytrach na thriniaeth.
- Cwestiynu'r amrywiad sylweddol yng nghapasiti colonosgopyddion ar draws byrddau iechyd. Esboniodd SH, er bod rhywfaint o weithio trawsffiniol yn bodoli, nad oedd gan unrhyw fwrdd iechyd gapasiti dros ben ar hyn o bryd i amsugno rhestrau sgrinio ychwanegol.
- Gofyn am y llwybr ar ôl colonosgopi. Cadarnhaodd SH fod amseroedd aros am driniaeth yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd ac yn cael eu monitro trwy setiau data perfformiad canser.
- Gofyn a allai'r Sefydliad ystyried oedi'r garfan oedran ieuengaf mewn sgrinio'r coluddion i leihau'r galw. Cynghorodd SH y byddai hyn yn broblem glinigol o ystyried y canserau a'r polypau a ganfuwyd eisoes yn y grŵp hwn.
- Mynegi pryderon ynghylch cadernid cynlluniau'r Bwrdd Iechyd, gan gwestiynu a gafodd y Sefydliad eglurder ynghylch pa restrau a gomisiynwyd fyddai'n cael eu

cyflwyno. Cadarnhaodd SH fod y Sefydliad wedi monitro'r ddarpariaeth rhestrau'n agos ac wedi uwchgyfeirio diffygion i brif weithredwyr.
- Holi am yr amserlenni achredu. Eglurodd SH nad oedd y Sefydliad yn newid safonau'r Grŵp Cynghori ar y Cyd ond ei fod yn ceisio symleiddio prosesau penodol i Gymru i fyrhau'r amser y mae'n ei gymryd i golonosgopyddion newydd gael cymeradwyaeth.

Rhoddodd SH yr wybodaeth ddiweddaraf am Bron Brawf Cymru, gan dynnu sylw at y canlynol:
- Roedd perfformiad yn erbyn y safon tair wythnos ar gyfer asesiad yn dilyn sgrinio mamograffeg yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhanbarth, roedd perfformiad De a Gorllewin Cymru yn agos at y safon, ac roedd gwelliant yn cael ei weld yn dilyn sefydlogi'r gweithlu yn ddiweddar. Fodd bynnag, profodd Gogledd Cymru oedi sylweddol a pharhaus, gydag arosiadau o 7–11 wythnos ac ôl-groniad o tua 160 o fenywod yn aros am asesiad. Roedd hyn oherwydd prinder gweithlu a dibyniaeth ar fodelau un clinigwr. Roedd y mater hwn wedi'i uwchgyfeirio at uwch arweinyddiaeth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIP) i sicrhau newidiadau gweithredol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- Archwilio a oedd lefelau'r sefydliadau presennol yn ddigonol. Cadarnhaodd SH fod swyddi gwag a maint cyffredinol timau clinigol wedi cyfrannu at oedi a chydnabu'r angen i adolygu lefelau'r sefydliad.
- Cwestiynu'r cyfnod darllen pythefnos a'r potensial ar gyfer meincnodi. Esboniodd SH fod llifau gwaith â llaw sylweddol, gan gynnwys diffyg cysylltedd digidol o unedau symudol, yn cyfyngu ar ostyngiad pellach a nododd y byddai llifau gwaith cymhleth yn cael eu hadolygu a nododd gynllun peilot ar gysylltedd unedau symudol.
- Codi pryderon ynghylch amrywiad mewn ymarfer clinigol yng Ngogledd Cymru, lle roedd argaeledd llawfeddygon yn atal clinigau dan arweiniad radioleg. Cadarnhaodd SH nad oedd hyn yn dderbyniol a'i fod wedi cael ei uwchgyfeirio ar lefel Weithredol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rhoddodd SH ddiweddariad ar Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) gan dynnu sylw at:
- Y prif her o ran perfformiad o fewn DESW oedd y cyfnod galw'n ôl o 12 mis. Roedd wedi'i yrru gan gynnydd mewn nifer yr achosion o ddiabetes a phrosesau â llaw, er bod gwelliannau ar y gweill trwy lwybrau galw'n ôl newydd, clinigau galw heibio a pheilot mydriasis fesul cam sydd ar ddod.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- Holi am gyflymder mabwysiadu arloesiadau fel mydriasis fesul cam. Cadarnhaodd SH fod y clinigau wedi'u cynllunio ar gyfer mis Ebrill gyda chefnogaeth gwerthuso gan y tîm ymchwil.
- Gofyn am sicrwydd ynghylch ymdrechion i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau graddio a'u heffaith ar achosion risg uchel. Cadarnhaodd SH fod recriwtio diweddar

Wedi i Cadarnhau

wedi gwella amseroldeb graddio a bod canfyddiadau clinigol brys yn parhau i gael blaenoriaeth.
- Holi am effaith cyfraddau peidio â mynychu (DNA). Cynghorodd SH fod defnyddio clinigau ac ail-archebu slotiau clinig yn allweddol, ynghyd â defnyddio system archebu awtomatig.

Diolchodd y Pwyllgor i SH am y cyflwyniad a chydnabu'r cyflawniadau sylweddol ar draws yr holl raglenni. Cydnabu'r Pwyllgor fod y Sefydliad wedi manteisio i'r eithaf ar y dulliau o fewn ei reolaeth a byddai'n tynnu sylw at yr angen am oruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd ynghylch capasiti colonosgopi ac asesiad o'r fron yng ngogledd Cymru gyda'r Bwrdd.
**Cam Gweithredu: CJ/LB**

**Nododd** y Pwyllgor y sefyllfa bresennol parthed perfformiad a'r meysydd sydd angen eu gwella a chefnogodd y cynllun gwella a'r camau gweithredu cysylltiedig sydd ar waith.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.02.24/7** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **QSIC 2026.02.24/7.1** | **Archwilio** |

**Nododd** y Pwyllgor y canlynol:
- Diweddariad y Traciwr Argymhellion Archwilio ac ystyriodd unrhyw effaith ar gynlluniau gwaith / meysydd ffocws y Pwyllgor
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Effeithiolrwydd Corfforaethol

| | |
|---|---|
| **Rhan B** | **Busnes Perfformiad a Gwella'r GIG** |
| **QSIC 2026.02.24/8** | **Datganiad o Fuddiant** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.02.24/9** | **Adroddiad Cydymffurfedd Llywodraethu Chwarterol Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Ch3)** |

Cyflwynodd KM ddiweddariad Uned Perfformiad a Gwella'r GIG, gan dynnu sylw at un gŵyn a chwe digwyddiad iechyd a diogelwch a adroddwyd ar Datix, yn ymwneud â diogelwch tân, llithro, baglu a chwympo a diogelwch yr adeilad a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phob digwyddiad.

Holodd y Pwyllgor a ddylai unrhyw un o staff Diogelu ac Incwm gwblhau hyfforddiant diogelu lefel 2 ac os oes angen, argymhellodd gynnwys y cydymffurfedd hon mewn adroddiadau yn y dyfodol.
**Cam Gweithredu: KM/SF**

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

**Iechyd a Diogelwch**
- **Cymryd sicrwydd** bod gan Perfformiad a Gwella'r GIG fesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

**Cydymffurfedd Adrodd ar Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol**

- **Nodwyd** nad oes unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy i'w hadrodd.

**Cydymffurfedd Cwynion (gan gynnwys PTR os yn berthnasol)**

- **Nodwyd** bod un gŵyn wedi dod i law ynghylch Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar gyfer y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

**Adrodd ar hawliadau (hawliadau gan staff a thrydydd partïon)**

- Wedi cael **sicrwydd** bod Hawliadau o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cael eu rheoli'n briodol.

**Cydymffurfedd DATIX**

- **Nodwyd** bod chwe digwyddiad wedi'u hadrodd ar Datix ar gyfer y cyfnod hwn a chymerwyd sicrwydd bod y broses briodol wedi'i dilyn o fewn Perfformiad a Gwella y GIG i reoli'r digwyddiadau hyn.

**Cydymffurfedd diogelu**

- **Nodwyd** nad oes unrhyw faterion diogelu wedi'u hadrodd ar gyfer y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

| **QSIC 2026.02.24/10** | **Gweinyddiaeth i gloi** |
|---|---|
| **QSIC 2026.02.24/10.1** | **Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben. | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 12:55* | |

Wedi i Cadarnhau